Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol / Operational and Partnership Services**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147
Gofynnwch am / Ask for: Andrew Rees

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Gwener, 12 Ionawr 2018

Annwyl Cynghorydd,

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A)**

Cynhelir Cyfarfod Is-Bwyllgor Trwyddedu (A) yn Ystafelloedd Pwyllgor 2/3 - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Iau, 18 Ionawr 2018** am **10.00 am**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 12
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 21/09/2017 & 16/11/2017

4. Cais i Drwyddedu Cerbyd Hurio Preifat — 13 - 16

5. Materion Brys
   I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

6. Gwahardd y Cyhoedd

Nid oedd y cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol
(Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath. .

7. <u>Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio</u> 17 - 32
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion gwahardd cyfarfod y 21/09/2017 and 16/11/2017

8. <u>Ceisiadau i Gymeradwyo Trwyddedau</u> 33 - 36

9. <u>Ceisiadau i Gymeradwyo Trwyddedau</u> 37 - 42

10. <u>Ceisiadau i Gymeradwyo Trwyddedau</u> 43 - 46

11. <u>Ceisiadau i Gymeradwyo Trwyddedau</u> 47 - 50

Yn ddiffuant
**P A Jolley**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol

**Dosbarthiad:**

| <u>Cynghowrwyr</u> | <u>Cynghorwyr</u> | <u>Cynghorwyr</u> |
|---|---|---|
| SE Baldwin | DRW Lewis | JE Williams |
| PA Davies | DG Owen | |
| DK Edwards | AA Pucella | |

COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 21 MEDI 2017, AM 10.00 AM

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

SE Baldwin DK Edwards DG Owen AA Pucella
JE Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PA Davies

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kate Amos | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

48. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd DRW Lewis fuddiant personol yn Eitem 12 yr Agenda, gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.

Datganodd y Cynghorydd S Baldwin fuddiant personol yn Eitem 11 yr Agenda, gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.

49. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Cofnodion ar gyfer cyfarfodydd Is-bwyllgor Deddf Drwyddedu 2003 dyddiedig 27 Mawrth a 23 Mai 2017, yn gofnod gwir a chywir.

50. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i gymeradwyo trwydded ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat.

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth yr Aelodau fod cais yn cael ei wneud gan David Llewellyn T/A Executive Cars Wales, i drwyddedu cerbyd Mercedes Sprinter, rhif cofrestru WR64 KUF, yn Gerbyd Hurio Preifat ar gyfer 8 o bobl. Cerbyd ail law oedd hwn a gafodd ei gofrestru gyntaf yn y DVLA ar 30 Medi 2014.

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu hefyd wrth yr Is-bwyllgor nad yw'r cais yn cydymffurfio â'r Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid yw'r cerbyd yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Serch hyn, ceir canllawiau polisi penodol sy'n berthnasol i drefniadau trwyddedu cychwynnol ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau polisi, ac mae manylion hyn ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

Yna, aeth yr Aelodau a'r Swyddogion i weld y cerbyd a oedd wedi'i barcio yn y maes parcio o dan y Swyddfeydd Dinesig.

Ar ôl dychwelyd i'r cyfarfod, dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth yr Is-bwyllgor fod 27,410 o filltiroedd ar gloc y cerbyd ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd Mr Llewellyn wrth yr Aelodau fod gan y cerbyd Dystysgrif Cydymffurfiaeth gan y DVLA ar gyfer yr addasiadau.

O ran cofnod gwasanaethau y cerbyd, dywedodd Mr Llewellyn ei fod wedi anfon neges e-bost i'r Adran Drwyddedu ar 4 Medi ynglŷn â hyn. Dywedwyd bod yn rhaid i'r cerbyd gael gwasanaeth bob 25,000 milltir ac y gwnaed y gwasanaeth diwethaf cyn iddo brynu'r cerbyd a bod rhyw 16,700 o filltiroedd ar gloc y cerbyd ar y pryd. Nid oedd y gwasanaeth nesaf yn angenrheidiol nes bod y cerbyd wedi teithio 14,000 milltir arall.

O ran defnydd y cerbyd, cadarnhaodd Mr Llewellyn fod gan Executive Cars Wales fflyd o gerbydau pen uchaf y farchnad a bod cwmnïau yn defnyddio'r rhain ar gyfer gwaith corfforaethol. Ychwanegodd fod cludiant gweithredol i 8 o bobl yn fwyfwy poblogaidd erbyn hyn.

Cadarnhaodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod paragraff 2.2.5 o'r Polisi Trwyddedu yn caniatáu ar gyfer llacio canllawiau'r polisi mewn amgylchiadau eithriadol pan ystyrir bod hynny'n briodol, ar gyfer trefniadau trwyddedu cychwynnol Cerbydau Hurio Preifat.

Aeth yr Aelodau i ffwrdd wedyn i ystyried y cais, ac ar ôl dychwelyd

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais a wnaed gan Mr Llewellyn i drwyddedu cerbyd, rhif cofrestru WR64 KUF, yn Gerbyd Hurio Preifat.

Nododd yr Is-bwyllgor nad yw'r cerbyd yn cydymffurfio â pharagraff 2.1 o'r Polisi Trwyddedu. O dan baragraff 2.2.5 o'r polisi, ceir cymeradwyo Trwydded mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn yr achos hwn, mae'r Is-bwyllgor wedi penderfynu y bodlonir yr amgylchiadau hyn am y rhesymau canlynol:

1. Safon ragorol y cerbyd tu fewn a thu allan.
2. Y safonau diogelwch rhagorol.

Felly, cymeradwyodd yr Is-bwyllgor y Drwydded.

51. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu, mewn cysylltiad â'r cais i drwyddedu Ford Transit Tourneo Custom, rhif cofrestru WR64 YDC, yn Gerbyd Hurio Preifat ar gyfer 8 o bobl, fod yr ymgeisydd, Mr Richard Phillips wedi dweud wrth yr Adran Drwyddedu nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod heddiw oherwydd ei fod ar ei wyliau.

Yn sgil yr wybodaeth hon,

PENDERFYNWYD: Gohirio'r cais gan Mr Phillips am drwydded Cerbyd Hurio Preifat ar gyfer y cerbyd uchod tan gyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor, gan nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol.

52. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i gymeradwyo trwydded ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat.

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth yr Aelodau fod cais yn cael ei wneud gan Andrew Bowler, i drwyddedu Ford Mondeo Titanium B-S Edn TDCI, rhif cofrestru CK14 PYB, yn Gerbyd Hurio Preifat ar gyfer 4 o bobl. Cerbyd ail law oedd hwn a gafodd ei gofrestru gyntaf yn y DVLA ar 9 Mai 2014.

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu hefyd wrth yr Is-bwyllgor nad yw'r cais yn cydymffurfio â'r Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid yw'r cerbyd yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Serch hyn, ceir canllawiau polisi penodol sy'n berthnasol i drefniadau trwyddedu cychwynnol ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau polisi, ac mae manylion hyn ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

Yna, aeth yr Aelodau a'r Swyddogion i weld y cerbyd a oedd wedi'i barcio yn y maes parcio o dan y Swyddfeydd Dinesig.

Ar ôl dychwelyd i'r cyfarfod, dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth yr Is-bwyllgor fod 38,332 milltir ar gloc y cerbyd ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod cofnod gwasanaethau wedi'i ddarparu a oedd yn cadarnhau bod 34,285 milltir ar y cloc ar 2 Mai 2017.

Dywedodd Mr Bowler ei fod wedi prynu'r cerbyd 3 wythnos yn ôl gan brif ddeliwr Ford, a'i fod wedi ystyried y cerbyd o safon dda a digon o le y tu mewn iddo ar gyfer teithwyr. Ychwanegodd fod nifer o nodweddion diogelwch yn y cerbyd hefyd.

Pan ofynnwyd pa fath o waith tacsi yr oedd Mr Bowler yn bwriadu ei wneud pe gymeradwywyd ei gais, atebodd y byddai'n gweithio i gwmni o'r enw With-Driven fel gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat.

Cadarnhaodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod paragraff 2.2.5 o'r Polisi Trwyddedu yn caniatáu ar gyfer llacio canllawiau'r polisi mewn amgylchiadau eithriadol pan ystyrir bod hynny'n briodol, ar gyfer trefniadau trwyddedu cychwynnol Cerbydau Hurio Preifat.

Aeth yr Aelodau i ffwrdd wedyn i ystyried y cais, ac ar ôl dychwelyd

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais a wnaed gan Mr Bowler i drwyddedu cerbyd, rhif cofrestru CK14 PYB, yn Gerbyd Hurio Preifat.

Nododd yr Is-bwyllgor nad yw'r cerbyd yn cydymffurfio â pharagraff 2.1 o'r Polisi Trwyddedu oherwydd oedran y cerbyd.

O dan baragraff 2.2.5 o'r polisi, ceir cymeradwyo Trwydded mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn yr achos hwn, mae'r Is-bwyllgor wedi penderfynu y bodlonir yr amgylchiadau hyn am y rhesymau canlynol:

1. Safon ragorol y cerbyd tu fewn a thu allan.
2. Y safonau diogelwch rhagorol.

Felly, cymeradwyodd yr Is-bwyllgor y Drwydded.

53. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HACNAI

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i gymeradwyo trwydded ar gyfer Cerbyd Hacnai.

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth yr Aelodau fod cais yn cael ei wneud gan Paul Brain t/a Peyton Travel Ltd, i drwyddedu Dacia Logan, rhif cofrestru FG15 XBP, yn Gerbyd Hacnai ar gyfer 4 o bobl. Cerbyd ail law oedd hwn a gafodd ei gofrestru gyntaf yn y DVLA ar 17 Ebrill 2015.

Nid yw'r cais yn cydymffurfio â'r Polisi Cerbydau Hacnai a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid yw'r cerbyd yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Serch hyn, ceir canllawiau polisi penodol sy'n berthnasol i drefniadau trwyddedu cychwynnol ar gyfer Cerbydau Hacnai nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau polisi, ac mae manylion hyn ym mharagraff 4.4 y adroddiad.

Yna, aeth yr Aelodau i archwilio'r cerbyd a oedd wedi'i leoli yn y maes parcio o dan y Swyddfeydd Dinesig.

Ar ôl dychwelyd i'r cyfarfod, dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth yr Is-bwyllgor fod 24,380 milltir ar gloc y cerbyd ar hyn o bryd.

Yna, gofynnodd i Mr Griffiths, a oedd yn y cyfarfod ar ran Mr Brain, am rywfaint o hanes y cerbyd er mwyn yr Aelodau.

Dywedodd fod Mr Brain wedi prynu'r cerbyd yn breifat ac mai un perchennog blaenorol oedd ganddo. Cadarnhaodd fod nifer y milltiroedd ar gloc y cerbyd yn isel a'i fod wedi prynu'r cerbyd am bris cystadleuol, ac mai ei fwriad wedyn oedd newid y cerbyd yn fuan, a phrynu cerbyd mwy diweddar yn ei le. Ni fyddai'r dull hwn o brynu/gwerthu yn arwain at gymaint o ymrwymiad ariannol o ran gwariant ar y cerbyd, gan gynnwys y golled yn sgil ei ailwerthu.

Gofynnodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu ymhle'r oedd y cerbyd wedi bod yn ystod y 6 mis diwethaf, h.y. rhwng dyddiad ei brynu a dyddiad y cais.

Dywedodd Mr Griffiths fod mam Mr Brain wedi bod yn defnyddio'r cerbyd yn y cyfnod hwn.

Nododd Aelod fod difrod ar flaen y cerbyd.

Dywedodd Mr Griffiths nad oedd y cerbyd wedi bod mewn damwain a bod gan y math hwn o fodel baneli â bolltau ar ei ochrau blaen, a gallai hynny roi'r argraff weithiau nad yw'r ddwy ochr mewn llinell union â'i gilydd. Roedd hyn oherwydd sut cafodd y car ei weithgynhyrchu/ei adeiladu.

Gofynnodd i Mr Griffiths a oedd Mr Brain yn ymwybodol o'r ffaith bod y polisi'n datgan bod trwyddedu cychwynnol Cerbydau Hacnai fel arfer ar gyfer cerbydau newydd ac nid cerbydau ail law.

Cadarnhaodd Mr Griffiths nad oedd yn gwybod a oedd Mr Brain yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hon yn y polisi ai peidio.

Nododd un Aelod, ar ôl archwilio'r cerbyd, nad oedd bonet y cerbyd mewn llinell union a bod yr ochr wedi'i chwistrelli â phaent.

Dywedodd Mr Griffiths eto fod Mr Brain wedi archwilio'r cerbyd ar adeg yr arwerthiant, a bod hyn wedi datgelu na fu difrod sylweddol i'r cerbyd yn flaenorol, er enghraifft mewn damwain ffordd.

Aeth yr Aelodau i ffwrdd wedyn i ystyried y cais, ac ar ôl dychwelyd

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais a wnaed gan Mr Brain i drwyddedu'r cerbyd, rhif cofrestru FG15 XBP, yn Gerbyd Hacnai. Gan fod hwn yn gais am drwyddedu cychwynnol y cerbyd, nododd yr Is-bwyllgor fod yn rhaid i'r cais am drwydded gychwynnol gael ei gyflwyno o fewn 14 diwrnod i'w gofrestru ac â llai na 500 milltir ar y cloc. Roedd oedran a nifer y milltiroedd ar gyfer y cerbyd hwn yn llawer uwch.

O dan baragraff 2.2 o'r Polisi Trwyddedu, bydd ceisiadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi yn cael eu gwrthod fel rheol, ac mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ystyrir llacio'r polisi. Mae canllawiau ar gyfer yr eithriadau hyn ar gael ym mharagraff 2.2.1 o'r polisi, ac mae llacio'r polisi ar gyfer cerbydau hacnai yn debygol o ddigwydd dim ond pan fo oedi o ran y dystiolaeth ym mhroses gofrestru y DVLA, neu fân amrywiadau yn y milltiroedd cludo.

Clywodd yr Is-bwyllgor hefyd yr esboniad ar gyfer y cerbyd a bod Mr Griffiths wedi dweud wrth yr Is-bwyllgor nad oedd y difrod i'r car wedi'i achosi ers i Mr Brain fod yn berchennog arno.

Fodd bynnag, roedd yr Is-bwyllgor yn pryderu am y difrod i'r cerbyd ac am oedran y cerbyd a nifer y milltiroedd ar y cloc. Hefyd, nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod y sefyllfa yn bodloni'r eithriadau a ganiateir ym mharagraff 2.2.1 o'r polisi sy'n nodi'r canllawiau ar gyfer llacio. Felly, ni all yr Is-bwyllgor lacio'i bolisi yn yr achos presennol, felly gwrthodwyd y cais am drwydded.

## 54. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HACNAI

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i gymeradwyo trwydded ar gyfer Cerbyd Hacnai.

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth yr Aelodau fod cais yn cael ei wneud gan Paul Brain t/a Peyton Travel Ltd, i drwyddedu Dacia Logan, rhif cofrestru GC15 OLA, yn Gerbyd Hacnai ar gyfer 4 o bobl. Cerbyd ail law oedd hwn a gafodd ei gofrestru gyntaf yn y DVLA ar 21 Gorffennaf 2015.

Nid yw'r cais yn cydymffurfio â'r Polisi Cerbydau Hacnai a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid yw'r cerbyd yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Serch hyn, ceir canllawiau polisi penodol sy'n berthnasol i drefniadau trwyddedu cychwynnol ar gyfer Cerbydau Hacnai nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau polisi, ac mae manylion hyn ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

Yna, aeth yr Aelodau i archwilio'r cerbyd a oedd wedi'i leoli yn y maes parcio o dan y Swyddfeydd Dinesig.

Ar ôl dychwelyd i'r cyfarfod, dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth yr Is-bwyllgor fod 47,848 milltir ar gloc y cerbyd ar hyn o bryd.

Yna, gofynnodd i Mr Griffiths, a oedd yn y cyfarfod ar ran Mr Brain, am rywfaint o hanes y cerbyd er mwyn yr Aelodau.

Dywedodd fod Mr Brain wedi prynu'r cerbyd yn breifat ac mai un perchennog blaenorol oedd ganddo. Cadarnhaodd fod nifer y milltiroedd ar gloc y cerbyd yn isel a'i fod wedi prynu'r cerbyd am bris cystadleuol, ac mai ei fwriad wedyn oedd newid y cerbyd yn fuan, a phrynu cerbyd mwy diweddar yn ei le. Ni fyddai'r dull hwn o brynu/gwerthu yn arwain at gymaint o ymrwymiad ariannol o ran gwariant ar y cerbyd, ynghyd â'r lefel leiaf bosibl o ddibrisio yn sgil ei ailwerthu.

Gofynnodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu ymhle'r oedd y cerbyd wedi bod yn ystod y 6 mis diwethaf, h.y. rhwng dyddiad ei brynu a dyddiad y cais.

Dywedodd Mr Griffiths ei fod wedi'i ddefnyddio'n breifat yn ystod y cyfnod hwn.

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth Mr Griffiths y dylai'r cerbyd fod yn newydd, fel rheol, ar gyfer ei drwyddedu'n gychwynnol fel Cerbyd Hacnai. Ychwanegodd fod y cerbyd, yn debyg i'r un blaenorol a ystyriwyd o dan Eitem 7 yr Agenda, yn dangos arwyddion o draul.

Dywedodd Mr Griffiths unwaith eto nad oedd y cerbyd (yn debyg i'r un diwethaf) wedi bod mewn damwain, ac y byddai Mr Brain wedi sicrhau hyn beth bynnag cyn prynu'r cerbyd.

Gofynnodd i Mr Griffiths a oedd Mr Brain yn ymwybodol o'r ffaith bod y polisi'n datgan bod trwyddedu cychwynnol Cerbydau Hacnai fel arfer ar gyfer cerbydau newydd ac nid cerbydau ail law.

Cadarnhaodd Mr Griffiths nad oedd yn gwybod a oedd Mr Brain yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hon yn y polisi ai peidio.

Nododd un Aelod, ar ôl archwilio'r cerbyd, nad oedd bonet y cerbyd mewn llinell union a bod yr ochr wedi'i chwistrellu â phaent.

Dywedodd Mr Griffiths eto fod Mr Brain wedi archwilio'r cerbyd ar adeg yr arwerthiant, a bod hyn wedi datgelu na fu difrod sylweddol i'r cerbyd yn flaenorol, er enghraifft mewn damwain ffordd.

Aeth yr Aelodau i ffwrdd wedyn i ystyried y cais, ac ar ôl dychwelyd

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais a wnaed gan Mr Brain i drwyddedu cerbyd, rhif cofrestru GC15 OLA, yn Gerbyd Hacnai. Gan fod hwn yn gais am drwyddedu cychwynnol y cerbyd, nododd yr Aelodau nad yw'n cydymffurfio â'r Polisi Trwyddedu ym Mharagraff 2.1, sy'n nodi bod yn rhaid i'r cais am drwydded cychwynnol gael ei gyflwyno o fewn 14 diwrnod i'w gofrestru ac â llai na 500 milltir ar y cloc. Roedd oedran a nifer y milltiroedd ar gyfer cerbyd Mr Brain yn llawer uwch na'r cyfyngiad hwn.

O dan baragraff 2.2 o'r Polisi Trwyddedu, bydd ceisiadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi yn cael eu gwrthod fel rheol, ac mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol yr ystyrir llacio'r polisi. Mae canllawiau ar gyfer yr eithriadau hyn ar gael ym mharagraff 2.2.1 o'r polisi, ac mae llacio'r polisi ar gyfer Cerbydau Hacnai yn debygol o ddigwydd dim ond pan fo oedi o ran y dystiolaeth ym mhroses gofrestru y DVLA, neu fân amrywiadau yn y milltiroedd cludo.

Mae'r Is-bwyllgor wedi clywed eich esboniad am y cerbyd ac nad oedd y difrod i'r car wedi'i achosi ers i'r ymgeisydd fod yn berchennog arno.

Fodd bynnag, roedd yr Is-bwyllgor yn pryderu am y difrod i'r cerbyd ac am oedran y cerbyd a nifer y milltiroedd ar ei gloc. Nid yw'r Is-bwyllgor yn ystyried bod y sefyllfa yn bodloni'r eithriadau a ganiateir ym mharagraff 2.2.1 o'r polisi sy'n nodi'r canllawiau ar gyfer llacio. Felly, ni all yr Is-bwyllgor lacio'i bolisi yn yr achos presennol, felly gwrthodwyd y cais Mr Brain am drwydded.

55. MATERION BRYS

Dim.

56. EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth esempt yn unol â'r diffiniad ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Yn dilyn prawf buddiant y cyhoedd, penderfynwyd ystyried yr eitemau canlynol yn breifat ac eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, oherwydd ystyriwyd ym mhob un o'r amgylchiadau sy'n berthnasol i'r eitemau, fod buddiant y cyhoedd i gadw'r esemptiad yn drech na buddiant y cyhoedd i ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd byddai'r wybodaeth yn rhagfarnus i'r ymgeiswyr dan sylw.

57. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

58. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

59. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

60. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

61. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

Daeth y cyfarfod i ben am 2.15 pm

COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 16 TACHWEDD 2017, AM 10.00 AM

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

SE Baldwin PA Davies DK Edwards AA Pucella
JE Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DG Owen

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kate Amos | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Katie Brook | Senior Licensing Technical Officer |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

63. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd A Pucella fuddiant rhagfarnus yn Eitem 8 yr Agenda, gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd yn dda, ac ni chymerodd ran yn y broses gwneud penderfyniadau. Gadawodd y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem. Datganodd fuddiant personol yn Eitem 10 yr Agenda gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.

Datganodd y Cynghorydd S Baldwin fuddiant personol yn Eitem 10 yr Agenda gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.

64. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Cofnodion Cyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu dyddiedig 28 Gorffennaf a 14 Medi 2017, yn gofnod gwir a chywir.

65. EITEMAU BRYS

Dim.

66. EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth esempt yn unol â'r diffiniad ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Yn dilyn prawf buddiant y cyhoedd, penderfynwyd ystyried yr eitemau canlynol yn breifat ac eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, oherwydd ystyriwyd, ym mhob un o'r amgylchiadau sy'n berthnasol i'r eitemau, fod buddiant y cyhoedd i gadw'r esemptiad yn drech na buddiant y

cyhoedd i ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd byddai'r wybodaeth yn rhagfarnus i'r ymgeiswyr dan sylw.

67. CYMERADWYO COFNODION WEDI'U EITHRIO

68. CEISIADAU I ADNEWYDDU TRWYDDEDAU

69. CEISIADAU I ADNEWYDDU TRWYDDEDAU

70. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

71. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 pm

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**REPORT TO LICENSING SUB COMMITTEE**

**18 JANUARY 2018**

**REPORT OF THE CORPORATE DIRECTOR, OPERATIONAL AND PARTNERSHIP SERVICES**

**APPLICATION TO LICENCE PRIVATE HIRE VEHICLE**

**1. Purpose of Report.**

1.1 To ask the sub-committee to consider an application to grant a licence for a private hire vehicle.

**2. Connection to Corporate Improvement Plan / Other Corporate Priority.**

2.1 None

**3. Background.**

3.1 It is the duty of the Local Authority to determine applications made under the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 and Town Police Clauses Act 1847. Applications which fall outside the policy guidelines are referred to a Licensing Sub-Committee for determination.

**4. Current situation / proposal.**

4.1 Application is made by James Bickerstaff, to licence a Renault Trafic Business Class vehicle registration number MD15 SXA as a private hire vehicle to seat 8 persons.

4.2 The vehicle is pre-owned and was first registered at the DVLA on 27 July 2015.

4.3 The application falls outside the Private Hire Vehicle Policy approved by the Licensing Committee. The vehicle is not wheelchair accessible, but there are specific policy guidelines in respect of the first licensing of private hire vehicles which fall outside policy guidelines, which are set out below. For Members' information, a service history has been provided confirming the mileage at 15189 on 15 August 2017.

4.4 <u>Policy Guidelines</u>

The vehicle policy applicable to this application was approved by the Licensing Committee on 10 March 2008. The relevant extract from the policy is as follows:

*"(Policy 2.1) Applications for the first licensing of a hackney carriage or private hire vehicle should be submitted to the Council within 14 days of the first registration of the vehicle at the DVLA. The mileage at the time of application should be no greater than 500 miles. The applicant may be the second or a subsequent registered keeper but the applicant must demonstrate that there is no more than 14*

*days between the first registration and transfer to the applicant's name. Applications will normally be dealt with under the Scheme of Delegation to Officers.*

*(Policy 2.2) Applications for the first licensing of vehicles falling outside the above policy guidelines will normally be refused but a relaxation of the policy may be considered in exceptional circumstances. The general guidelines for relaxation of the policy are as follows but each case will be dealt with on its merits:*

*(Policy 2.2.5) A relaxation of the policy will also be considered in exceptional circumstances for applications relating to the first licensing of private hire vehicles. The Council does not seek to limit or define a particular vehicle which is suitable but will adhere to the minimum standards for the size of seats and legroom etc which are available on request. Irrespective of the age of the vehicle it must be capable of satisfying the general licensing conditions and be fit for purpose as a private hire vehicle in terms of passenger safety and comfort. Each application will be reported to the Licensing Sub-Committee for determination on its merits having regard to the following criteria:*

- *That the vehicle presented is in an exceptional condition in relation to its exterior and interior appearance with no evidence of defects, chips, marks or other evidence of unreasonable wear and tear or damage.*

- *That the vehicle presented offers an exceptional standard of safety and comfort for passengers in terms of features offered for example ABS, passenger airbags and ability to meet current requirements on emissions testing.*

- *That the application includes evidence that the vehicle has been serviced at the intervals recommended by the manufacturer and at an approved garage. Other relevant documentations such as an MOT certificate should also be provided.*

*(Policy 2.4) All applicants should be satisfied that they can meet all current policy requirements before submitting an application and are advised that they submit an application which falls outside the above policy guidelines at their own risk. Acceptance of an application does not infer that it will be granted. Applicants are strongly advised not to purchase a vehicle or make any other financial commitment until the application is determined."*

**5. Effect upon Policy Framework & Procedure Rules.**

5.1 None

**6. Equality Impact Assessment.**

6.1 This vehicle is not for wheelchair use. There are no other implications in relation to age; disability; gender and transgender; race; religion or belief and non-belief; sexual orientation.

**7. Financial Implications.**

7.1 None for the Authority.

**8. Recommendation.**

8.1 The Sub-Committee is asked to determine the application having regard to the information contained within this report.

**Andrew Jolley**
**Corporate Director Operational and Partnership Services**

**Date 12 January 2018**


**Contact Officer:** Yvonne Witchell
Team Manager Licensing

**Telephone:** (01656) 643643

**E-mail:** Yvonne.Witchell@bridgend.gov.uk

**Postal Address** Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB


**Background documents**

Private Hire Vehicle Application
Private Hire Vehicle Policy Guidelines

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank